Coleg Llandrillo | Coleg Menai | Coleg Meirion Dwyfor | Busnes@LlandrilloMenai | www.gllm.ac.uk

GWELLA DYFODOL POBL
IMPROVING PEOPLE'S FUTURES

Amgylchiadau Lliniarol

Os ydych yn dilyn cwrs gradd yn y coleg ac os ydych wedi bod yn sâl neu'n delio â phroblem a gafodd effaith ar eich astudiaethau, gallech fod yn gymwys i wneud cais am Amgylchiadau Lliniarol (ALl).

Gallai hyn olygu cael amser ychwanegol i gyflwyno asesiad neu gael sefyll arholiad yn hwyrach. Mae sawl ffordd y gall y coleg eich helpu.

Cam 1– siaradwch â'ch athro neu'ch tiwtor personol; dywedwch wrthynt beth sy'n bod a gadewch iddynt eich cynghori.

Cam 2 – os yw'ch tiwtor yn teimlo y byddech yn elwa o wneud cais i'r Panel Amgylchiadau Lliniarol, lawrlwythwch y Ffurflen ALl oddi ar www.gllm.ac.uk/hepolicies/

Cam 3– ar ôl ei llenwi, cyflwynwch eich ffurflen gais (ynghyd â thystiolaeth ategol) i'ch tiwtor mewn pryd ar gyfer cyfarfod nesaf y Panel ALl.

Cam 4– Bydd y Panel yn edrych ar eich cais ac yn anfon llythyr atoch drwy e-bost a thrwy'r post yn eich hysbysu o'r canlyniad.

Peidiwch byth â phetruso cyn siarad â'ch tiwtor; mae sawl ffordd y gall y coleg eich helpu – ein cenhadaeth yw eich helpu i lwyddo yn eich astudiaethau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y broses amgylchiadau lliniarol, cysylltwch â Matthew Neale (m.neale@gllm.ac.uk) neu gallwch ddarllen y Polisi ALl sydd ar gael ar www.gllm.ac.uk/hepolicies/

Dyddiadau Cyfarfodydd y Panel ALl 2019/20

- 27 Tachwedd
- 15 Ionawr
- 26 Chwefror
- 25 Mawrth
- 22 Ebrill
- 20 Mai

Cofiwch gyflwyno'ch cais o leiaf un wythnos cyn i'r Panel gyfarfod. Llenwch bob rhan o'r ffurflen gais, gan gynnwys tystiolaeth ategol

Extenuating Circumstances

If you're studying for a Degree at College and have been ill or dealing with a problem that impacted your studies you may be eligible to apply for Extenuating Circumstances (EC).

This could allow you extra time to submit an assessment or sit an exam at a later date. There are many ways the College can help you.

Step 1- talk to your teacher or personal tutor, tell them what you're going through and see what they advise.

Step 2- if you tutor feels you would benefit from applying to the Extenuating Circumstances Panel download the EC Form at www.gllm.ac.uk/hepolicies/

Step 3- submit your completed application along with supporting evidence to your tutor in time for the next meeting of the EC Panel

Step 4- The Panel will review your application and send you a letter via email and post with an outcome.

Never hesitate to talk with your tutor, there are many ways the College can help you, our mission is to help you succeed in your studies.

If you have questions about the extenuating circumstances process contact Matthew Neale m.neale@gllm.ac.uk or you can read the EC Policy available at www.gllm.ac.uk/hepolicies/

EC Panel Meeting Dates 2019/20

- 27 November
- 15 January
- 26 February
- 25 March
- 22 April
- 20 May

Remember to submit your applications at least 1 week before the Panel. Please fill in all sections of the form and include supporting evidence